Gweinyddiaeth Cyfiawnder



# Cyn dod i'r Llys:
## Mynd i Lys Troseddol fel Diffynnydd

# Cyn dod i’r Llys: Mynd i Lys Troseddol fel Diffynnydd

**Mae’r daflen hon yn cynnwys gwybodaeth i’ch helpu i ddeall beth fydd yn digwydd os byddwch yn cael eich cyhuddo o drosedd ac yn gorfod mynd i Lys y Goron.**

---




Rydych wedi cael eich cyhuddo o drosedd mewn gorsaf heddlu neu drwy’r post.

Dywedwyd wrthych am fynd i’r llys.

Yn y llys byddwch yn cael eich galw’n ddiffynnydd.

Mae’r wybodaeth hon yn bwysig a dylech ei darllen cyn ichi fynd i’r llys.

Dylech hefyd ddarllen y canllaw i dermau cyfreithiol a ddefnyddir yn y llysoedd troseddol.

---

**Cyngor Cyfreithiol**




Os oes arnoch angen help gyda’r achos, siaradwch â thwrnai.

Peidiwch ag aros nes eich bod yn dod i’r llys i siarad â thwrnai.

Mae cyfreithwyr a bargyfreithwyr yn dwrneiod.

Gallant ddadlau eich achos ar eich rhan yn y llys.

Nid yw siarad â thwrnai yn rhoi’r argraff eich bod wedi gwneud rhywbeth o’i le.

Gall cyfreithiwr eich helpu i gael gwybod a ydych yn gymwys i gael cyngor cyfreithiol am ddim. Gelwir hyn yn gyngor cyfreithiol.




Gallwch ddod o hyd i gyfreithiwr ar-lein yn: www.solicitors.lawsociety.org.uk.

Neu gallwch ffonio Cymdeithas y Gyfraith ar 020 7320 5650.

Gallwch ddod o hyd i fargyfreithiwr ar-lein yn: www.directaccessportal.co.uk

Gallwch hefyd siarad ag asiantaeth gynghori fel Cyngor ar Bopeth. Efallai y byddant yn gallu eich helpu i ddod o hyd i dwrnai, neu roi cyngor ichi.

---

## Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn dod i'r llys?



Gellid eich arestio. Gellid eich cadw yn y carchar hyd at ddyddiad newydd eich gwrandawiad llys.

Weithiau gall y llys ddelio â'r achos yn eich absenoldeb. Os bydd hynny'n digwydd, ni fydd modd ichi gael dweud eich dweud.

## Beth yw llys ynadon?





Mae pob achos troseddol yn cychwyn mewn llys ynadon.

Mewn llys ynadon, gall dau neu dri ynad neu Farnwr Rhanbarth wrando eich achos.

Nid cyfreithwyr yw ynadon. Maent yn cael eu cefnogi gan Gynghorydd Cyfreithiol sydd wedi'i hyfforddi yn y gyfraith.

Mae Barnwyr Rhanbarth wedi'u hyfforddi yn y gyfraith. Weithiau bydd Barnwr Rhanbarth yn gwrando achos yn lle ynadon.

## Beth yw Llys y Goron?




Mae achosion troseddol difrifol yn mynd i Lys y Goron. Efallai y cewch eich anfon i Lys y Goron ar ôl eich gwrandawiad cyntaf mewn llys ynadon.

Gwrandewir ar dreialon yn Llys y Goron gan farnwr a rheithgor.

**Beth am fy mhlant?**



Gallwch fod yn y llys trwy'r dydd.

Gallwch ddod â phlant i adeilad y llys, ond ni allant fynd i mewn i'r llys gyda chi.

Ceisiwch ddod o hyd i rywun i ofalu am eich plant am y diwrnod.

Os na allwch wneud hyn, gallwch ddod â rhywun rydych yn ymddiried ynddo gyda chi. Gallwch adael y plant gydag ef/hi tra byddwch yn y llys.

Yn achos rhai troseddau, gellir eich anfon i'r carchar cyn eich treial neu ar ôl y ddedfryd. Dylech feddwl am rywun i ofalu am eich plant petaech yn cael eich anfon i'r carchar. Gofynnwch am gymorth gan rywun, rhag ofn.


Os byddwch yn cael eich anfon i'r carchar, bydd rhaid ichi fynd yno'n syth.

**Beth ddylwn i ddod gyda fi i'r llys?**



Gallwch fod yn aros yn y llys am gyfnod hir. Os gofynnwyd ichi fod yn y llys erbyn 9.30am neu 1.30pm, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y bydd eich gwrandawiad yn digwydd ar yr adeg hon.

Dewch â rhywbeth gyda chi i'ch cadw yn brysur, llyfr neu gylchgrawn er enghraifft.



Dewch â ffrind neu aelod o'ch teulu y rydych yn ymddiried ynddo gyda chi i'ch cefnogi a'ch helpu.

Rhag ofn ichi gael eich anfon i'r carchar, dewch â bag o bethau gyda chi, pethau fel dillad ac esgidiau cyfforddus, plygiau clustiau, arian parod, meddyginiaeth hanfodol, rhifau ffôn a chyfeiriadau aelodau o'ch teulu, papur ac amlenni gyda stampiau arnynt yn barod.



**Beth ddylwn i ei wisgo pan fyddaf yn dod i'r llys?**

Dylech edrych fel eich bod yn cymryd yr achos llys o ddifrif.

Ceisiwch wisgo rhywbeth ffurfiol a smart i fynd i'r llys.




**A oes rhaid i mi fod ar amser?**

**Rhaid!** Peidiwch â chyrraedd y llys yn hwyr.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod faint o amser y bydd arnoch ei angen i gyrraedd y llys. Trefnwch pa lwybr y byddwch yn ei gymryd ymlaen llaw.

Rhowch fwy na digon o amser i deithio i'r llys, rhag ofn y bydd rhywbeth yn mynd o'i le.

**Diogelwch yn y Llys**



Bydd rhaid ichi fynd trwy'r drefn ddiogelwch pan fyddwch yn cyrraedd y llys.

Bydd eich bagiau yn cael eu harchwilio.

Efallai y byddwch yn cael eich archwilio'n gorfforol.

Ni chewch ddod ag alcohol, gwydr na chyllyll i mewn i'r llys. Dyma restr o'r holl bethau ni allwch ddod â nhw i mewn i'r llys:

https://www.gov.uk/entering-court-or-tribunal-building



Os byddwch yn dod â rhywbeth sydd ar y rhestr hon i'r llys, efallai y bydd yn cael ei gymryd oddi arnoch.

Caniateir ichi ddod â ffôn i'r llys ond mae'n rhaid ichi ei ddiffodd yn ystod yr achos.

Ni chaniateir ichi dynnu lluniau na fideos yn unrhyw ran o adeilad y llys.

## Cefnogaeth yn y Llys



- Gall **Cyfreithwyr ar Ddyletswydd** eich helpu cyn ichi fynd i mewn i'r llys os nad oes gennych gyfreithiwr.
- Gall **staff y llys** eich helpu gydag unrhyw gwestiynau am y llys. Fodd bynnag, ni allant roi cyngor cyfreithiol ichi na siarad gyda chi am eich achos. Maent yn gwisgo bathodynnau GLITEM.
- **Mae Gwasanaethau Cyswllt a Chyfeirio** yn helpu pobl sy'n dioddef problemau iechyd meddwl a phobl gydag anawsterau dysgu.
- Os nad ydych yn gallu siarad Saesneg yn dda iawn, neu os oes gennych anabledd sy'n ei gwneud hi'n anodd ichi ddeall pethau, dylech roi gwybod i'r llys cyn gynted ag y bo modd. Gallwch gael **cyfieithydd**, neu gymorth arall i'ch helpu i ddeall.




## Beth fydd yn digwydd yn y llys?

Gallwch fod yn y llys ar gyfer gwrandawiad neu ar gyfer treial.

Cynhelir gwrandawiadau i drafod pethau fel:

- Pa droseddau y'ch cyhuddwyd o'u cyflawni
- Beth yw eich ple
- A fydd rhaid ichi ddod yn ôl i'r llys ai peidio



Ni fyddwch yn destun treial dim ond os ydych yn dweud eich bod yn ddieuog a heb gyflawni'r drosedd.

Mewn treial bydd pobl yn rhoi tystiolaeth a bydd barnwr, ynad neu reithgor yn penderfynu a ydych wedi cyflawni'r drosedd. Byddwch yn cael gwybod ar ddiwedd eich gwrandawiad neu eich treial os bydd angen ichi fynd yn ôl i'r llys.

**Beth yw dedfryd?**



Dedfryd yw'r gosb y byddwch yn ei chael os y'ch ceir yn euog neu os byddwch yn pledio'n euog.

Gall eich dedfryd fod yn ddirwy, yn ddedfryd gymunedol, yn waharddiad rhag gyrru, yn ddedfryd o garchar neu'n rhywbeth arall.



Gallwch gael dedfryd ohiriedig. Mae hyn yn golygu na fydd rhaid ichi fynd i'r carchar oni bai eich bod yn cyflawni trosedd arall. Efallai bydd rhaid ichi wneud gwaith di-dâl, neu fynd i gyfarfodydd gyda swyddog prawf. Gelwir y rhain yn 'gofynion.' Os na fyddwch yn dilyn y gofynion gallwch gael eich cosbi, a gallwch gael eich anfon i'r carchar.

Ceir rhagor o wybodaeth am y dedfrydau am wahanol droseddau yma:

www.sentencingcouncil.org.uk



Bydd barnwr neu ynad yn ystyried llawer o bethau wrth benderfynu pa ddedfryd i'w rhoi ichi. Er enghraifft, os oes gennych unrhyw euogfarnau eraill, efallai y bydd eich cosb yn llymach.

Ceir rhagor o wybodaeth yma:


www.gov.uk/how-sentences-are-worked-out

Os ydych am ddweud eich bod yn euog, dylech wneud hynny cyn gynted ag y bo modd.



Efallai y byddwch yn cael llai o ddedfryd os byddwch yn pledio'n euog. Gorau po gyntaf y dywedwch wrth y llys eich bod am bledio'n euog gan y bydd modd lleihau rhagor ar y gosb felly.

Mae'r uchod er gwybodaeth yn unig. Nid ydym yn eich annog i bledio'n euog os nad ydych yn euog o'r drosedd. Ceisiwch gyngor cyfreithiol.





## Materion ariannol

Os byddwch yn pledio'n euog neu os bydd y llys yn eich cael yn euog, efallai y bydd y llys yn penderfynu eich dirwyo. Efallai y bydd rhaid ichi dalu'r ddirwy ar unwaith.

Efallai y bydd gorchymyn ichi wneud taliad arall, talu costau'r erlyniad neu iawndal ar gyfer y dioddefwr er enghraifft.

Cyn i'r llys benderfynu ar y swm byddwch yn ei dalu, bydd yn gofyn am wybodaeth gennych am eich sefyllfa ariannol.

Gofynnir ichi lenwi ffurflen yn nodi faint o arian rydych chi'n ei ennill neu unrhyw fudd-daliadau rydych yn eu cael, a gwybodaeth am eich costau byw. Mae'r ffurflen ar gael yma: https://www.gov.uk/government/publications/form-mc100-make-sure-you-can-pay-your-fine-english




## Beth fydd yn digwydd os bydda i'n cael dedfryd o garchar?

Os byddwch yn cael dedfryd o garchar yna bydd rhaid ichi fynd i'r carchar ar unwaith.

Efallai na fyddwch yn gallu siarad gyda'ch teulu na'ch ffrindiau. Gall eich ffrindiau neu eich teulu wneud trefniadau i ddod i'ch gweld pan fyddwch yn y carchar.



## Eich Cofnod Troseddol

Os y'ch ceir yn euog, mae'n debygol iawn y bydd gennych gofnod troseddol, hyd yn oed os ydych yn meddwl nad oedd y drosedd yn ddifrifol.

Gall hyn gael cryn effaith ar eich bywyd.

Efallai y bydd rhaid ichi ddweud wrth eich cyflogwr, neu ddatgelu'r euogfarn pan fyddwch yn gwneud cais am swydd. Efallai y bydd yn eich atal rhag teithio i rai gwledydd ar gyfer gwaith neu i fynd ar wyliau.

Ceisiwch gyngor cyfreithiol ynglŷn â'r hyn y mae'n rhaid ichi ei ddatgelu.

**Cymorth a Chefnogaeth:**

Cael twrnai:

https://www.citizensadvice.org.uk/law-and-courts/legal-system/finding-free-or-affordable-legal-help/

Cyfreithwyr:

https://solicitors.lawsociety.org.uk/
www.lawsociety.org.uk/for-the-public/common-legal-issues/criminal/

Bargyfreithwyr:

www.barcouncil.org.uk

www.directaccessportal.co.uk

Dedfrydau:

www.gov.uk/how-sentences/are/worked-out

http://ybtj.justice.gov.uk/

Cefnogaeth:

Alcoholics Anonymous: www.alcoholics-anonymous.org.uk

MIND (cyngor iechyd meddwl): www.mind.org.uk

National Debtline: www.nationaldebtline.org

Y Samariaid: www.samaritans.org

Shelter Cymru: https://sheltercymru.org.uk

SSAFA (Elusen i Gyn-aelodau'r Lluoedd Arfog): www.ssafa.org.uk

Cymorth i Ferched: www.welshwomensaid.org.uk